## Etholiadau'r Senedd 2026

## Cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol

Rhoddir y cyfarwyddiadau hyn gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) o dan Adrannau 20B ac 20C Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013 ("Deddf 2013"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ("Deddf 2024").

O dan y ddeddfwriaeth hon, caiff y BRhE roi cyfarwyddiadau ysgrifenedig i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ynglŷn ag arfer swyddogaethau'r swyddogion yn gysylltiedig ag etholiadau'r Senedd.

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn ymwneud â rhwymedigaeth y BRhE i weithredu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

| | Pwnc | Cyfarwyddyd |
|---|---|---|
| 1 | **Gwybodaeth am orsafoedd pleidleisio a hygyrchedd**<br><br>*Darparu gwybodaeth i'r Clwb Democratiaeth* | **Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau roi gwybodaeth am orsafoedd pleidleisio a'u hygyrchedd i'r Clwb Democratiaeth a fydd yn prosesu'r data ar ran y BRhE.**<br><br>**Mae'n rhaid i'r wybodaeth hon gynnwys ymatebion i'r cwestiynau canlynol, o ran pob gorsaf bleidleisio yn yr ardal y mae'r Swyddog Canlyniadau'n gyfrifol amdani:**<br><br>• **Ai strwythur dros dro yw'r orsaf bleidleisio?**<br>• **A oes mynediad gwastad i'r orsaf bleidleisio?**<br>• **Os defnyddir ramp i ddarparu mynediad i'r orsaf bleidleisio, a yw'r ramp yn barhaol neu dros dro?**<br>• **A oes parcio gerllaw?**<br>• **A oes parcio i'r anabl ar gael?**<br>• **A ddefnyddir dolen glyw yn yr orsaf bleidleisio?**<br>• **A oes tai bach sy'n hygyrch i'r cyhoedd ar y safle?**<br><br>**Bydd y Clwb Democratiaeth hefyd yn sicrhau bod dau faes testun rhydd dewisol ar gael o dan y penawdau "Cyrraedd yr orsaf" ac "Yn yr orsaf", petai Swyddogion Canlyniadau'n dymuno darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol.**<br><br>**Mae'n rhaid i'r data gael ei ddarparu ar ffurf, ac yn unol â graddfeydd amser, a bennir gan y Clwb Democratiaeth.**<br><br>**Os bydd gorsaf bleidleisio'n newid ar fyr rybudd, dylai'r Swyddog Canlyniadau wneud ei orau i ddarparu'r wybodaeth wedi'i diweddaru cyn gynted ag y bo'n ymarferol.**<br><br>*Mae'n gyfreithiol ofynnol i'r BRhE ddarparu gwybodaeth am hygyrchedd ar gyfer pob gorsaf bleidleisio ar y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig. Mae'r BRhE yn dibynnu ar y Swyddogion Canlyniadau i ddarparu'r wybodaeth hon gan eu bod nhw'n gyfrifol am orsafoedd pleidleisio.*<br><br>*Mae'r holl Swyddogion Canlyniadau yn rhoi data am orsafoedd pleidleisio i'r Clwb Democratiaeth ar hyn o bryd, felly diben y cyfarwyddyd hwn yw ffurfioli'r trefniadau hynny. Bydd y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn cael y wybodaeth hon gan y Clwb Democratiaeth ac yn ei defnyddio i ddarparu swyddogaeth chwilio* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *sy'n benodol i ardal i bleidleiswyr.* |
| **2** | **Hysbysiadau Swyddogol**<br><br>*Darparu hysbysiadau cyhoeddedig* | **Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau ddarparu i'r BRhE yr hysbysiadau ffurfiol sy'n ymwneud â'r etholiad y mae'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau eu cyhoeddi yn unol ag Atodlen 5 Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychioli'r Bobl) 2025.**<br><br>**Yn benodol, mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau ddarparu'r canlynol i'r BRhE pan gânt eu cyhoeddi:**<br>• **Yr Hysbysiad o Etholiad (fel sy'n ofynnol gan baragraff 3 Atodlen 5);**<br>• **Y Datganiad o Bartïon ac Unigolion a Enwebwyd (fel sy'n ofynnol gan baragraff 17 Atodlen 5);**<br>• **Yr Hysbysiad o Bleidlais (fel sy'n ofynnol gan baragraff 31(1) Atodlen 5);**<br>• **Yr Hysbysiad o Leoliad Gorsafoedd Pleidleisio a'r disgrifiad o bleidleiswyr sydd â'r hawl i bleidleisio yno (fel sy'n ofynnol gan baragraff 31(2) Atodlen 5); a'r**<br>• **Datganiad o Ganlyniadau (fel sy'n ofynnol gan reoliad 64(4) Atodlen 5).**<br><br>**Mae'n rhaid i bob un o'r hysbysiadau hyn:**<br>• **gael ei anfon trwy e-bost at y BRhE (at y cyfeiriad e-bost a gadarnheir mewn canllawiau a gyhoeddir gan y BRhE) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Swyddog Canlyniadau gyhoeddi'r hysbysiad a dim hwyrach na 24 awr ar ôl cyhoeddi; a**<br>• **chael ei ddarparu i'r BRhE yn yr un fformat ag y cyhoeddodd y Swyddog Canlyniadau yr hysbysiad ar ei wefan ei hun.**<br><br>**Os bydd y Swyddog Canlyniadau'n diwygio ac ailgyhoeddi unrhyw un o'r hysbysiadau hyn yn ddiweddarach, mae'n rhaid iddo anfon yr hysbysiad wedi'i ddiweddaru trwy e-bost at y BRhE cyn gynted ag y bo'n ymarferol i'w ailgyhoeddi ar y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.**<br><br>*Mae'n rhaid i'r BRhE gyhoeddi pob un o'r 5 hysbysiad a restrir uchod yn uniongyrchol ar y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig. Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau ddarparu'r hysbysiadau hyn er mwyn i'r BRhE wneud hynny.* |
| **3** | **Y broses enwebu**<br><br>*Darparu gwybodaeth am y platfform i ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad* | **Wrth gynnal y broses enwebu, mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad yn derbyn y 'wybodaeth ofynnol' am y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.**<br><br>**Bydd y 'wybodaeth ofynnol' yn cael ei darparu gan y BRhE a bydd yn cynnwys gwybodaeth am y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig a'r broses cyflwyno cyfeiriad etholiad. Bydd hefyd yn amlygu'r trefniadau rhannu data rhwng Swyddogion Canlyniadau a'r BRhE i gynyddu tryloywder.**<br><br>**Mae'n rhaid iddi gael ei rhoi i'r ymgeiswyr a'r asiantiaid etholiad pan fydd enwebiadau'n cael eu danfon trwy law neu drwy fodd electronig, a bydd y BRhE yn darparu adnoddau ar gyfer y ddwy ffurf.**<br><br>**Dylai'r ymgeiswyr a'r asiantiaid etholiad ei derbyn o fewn 24 awr o'r adeg pan fydd y Swyddog Canlyniadau'n derbyn y papur enwebu.**<br><br>*Y Swyddog Canlyniadau fydd â'r cysylltiad cychwynnol ag ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad yn ystod y broses etholiad. Bydd darparu'r 'wybodaeth* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *ofynnol’ ar yr adeg hon yn esbonio sut mae’r platfform yn gweithredu a’r broses cyflwyno cyfeiriad etholiad. Bydd hefyd yn cynyddu tryloywder ynglŷn â phrosesu data personol perthnasol.* |
| **4** | **Gwybodaeth am ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad**<br><br>*Data ymgeiswyr ar gyfer y broses cyflwyno cyfeiriadau etholiad*<br><br>*Gwybodaeth i alluogi cyflwyno cyfeiriadau etholiad mewn modd hygyrch ar y platfform* | **Mae’n rhaid i Swyddogion Canlyniadau ddarparu data am ymgeiswyr ac asiantiaid etholiad i’r BRhE ar gyfer y system cyflwyno cyfeiriadau etholiad ar-lein ac ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth ymgeiswyr.**<br><br>**Mae’n rhaid darparu’r data canlynol:** |

| | **Ymgeiswyr rhestr pleidiau** | **Ymgeiswyr unigol** |
|---|---|---|
| **Set ddata A – Gwybodaeth cyflwyno cyfeiriad etholiad** | **1. Enw’r blaid neu ddisgrifiad o’r blaid gofrestredig**<br><br>**2. Ar gyfer pob ymgeisydd rhestr pleidiau:**<br><br>**(a) Enw llawn neu enw a ddefnyddir fel arfer (pan fydd wedi’i ddarparu)**<br>**(b) Cyfeiriad e-bost (pan fydd wedi’i ddarparu)**<br><br>**3. Enw’r asiant etholiad**<br><br>**4. Cyfeiriad e-bost yr asiant etholiad (pan fydd wedi’i ddarparu)**<br><br>**5. Dyfeisiau adnabod eraill y system, fel y bo angen** | **1. Disgrifiad – Annibynnol neu wedi’i adael yn wag**<br><br>**2. Enw llawn yr ymgeisydd neu enw a ddefnyddir fel arfer (pan fydd wedi’i ddarparu)**<br><br>**3. Cyfeiriad e-bost yr ymgeisydd (pan fydd wedi’i ddarparu)**<br><br>**4. Enw’r asiant etholiad**<br><br>**5. Cyfeiriad e-bost yr asiant etholiad (pan fydd wedi’i ddarparu)**<br><br>**6. Dyfeisiau adnabod eraill y system, fel y bo angen** |
| **Set ddata B – Gwybodaeth am Bleidiau / ymgeiswyr a enwebwyd** | **1. Enw’r blaid neu ddisgrifiad o’r blaid gofrestredig**<br><br>**2. Arwyddlun y blaid**<br><br>**3. Ar gyfer pob ymgeisydd rhestr pleidiau:**<br><br>**(a) Enw llawn neu enw a ddefnyddir fel arfer (pan fydd wedi’i ddarparu)**<br>**(b) Cyfeiriad cartref neu ardal berthnasol os na roddir cyfeiriad cartref**<br>**(c) Datganiad ynghylch aelodaeth â phlaid (pan fydd wedi’i ddarparu)**<br>**(ch) Plaid / ymgeisydd annilys/wedi’i thynnu/dynnu’n ôl: fel yr uchod gyda’r rheswm dros** | **1. Disgrifiad – Annibynnol neu wedi’i adael yn wag**<br><br>**2. Enw llawn yr ymgeisydd neu enw a ddefnyddir fel arfer (pan fydd wedi’i ddarparu)**<br><br>**3. Cyfeiriad cartref neu ardal berthnasol os na roddir cyfeiriad cartref**<br><br>**4. Datganiad ynghylch aelodaeth â phlaid (pan fydd wedi’i ddarparu)**<br><br>**5. Ymgeisydd annilys/wedi’i dynnu’n ôl: fel yr uchod gyda’r rheswm dros annilysrwydd/tynnu’n ôl** |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>
<table>
<tr>
<td></td>
<td>annilysrwydd/tynnu’n ôl<br><br>4. Dyfeisiau adnabod eraill y system, fel y bo angen</td>
<td>6. Dyfeisiau adnabod eraill y system, fel y bo angen</td>
</tr>
</table>
Mae’n rhaid i set ddata A gael ei darparu ar ddiwedd pob diwrnod gwaith yn ystod y cyfnod pan fydd y Swyddog Canlyniadau’n derbyn papurau enwebu.<br><br>
Mae’n rhaid i set ddata B gael ei darparu cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod enwebu. Fe ddylai hyn fod ar ôl i unrhyw wiriadau terfynol gael eu cwblhau at ddibenion cyhoeddi’r Datganiad Pleidiau/Unigolion a Enwebwyd.<br><br>
Mae’n rhaid rhoi gwybod i’r BRhE am unrhyw ddiwygiadau a wneir i’r Datganiad Pleidiau / Unigolion a Enwebwyd ar ôl i fersiwn derfynol y data gael ei darparu i’r BRhE, cyn gynted â phosibl. Mae’n rhaid i hyn gael ei wneud yn unol â’r broses a amlinellwyd yn y canllawiau a roddwyd gan y BRhE.<br><br>
Mae’n rhaid i’r setiau data hyn gael eu darparu i helpu’r BRhE â’i rwymedigaethau cyfreithiol yn gysylltiedig â’r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.<br><br>
Bydd set ddata A yn galluogi’r BRhE i dderbyn cyfeiriadau etholiad o’r diwrnod ar ôl i blaid/ymgeisydd gyflwyno ei phapur/bapur enwebu. Mae cyfeiriadau e-bost yn ofynnol i sicrhau proses ddilysu ddiogel.<br><br>
Bydd set ddata B yn galluogi’r BRhE i gyhoeddi’r wybodaeth a gynhwysir yn y Datganiad o Bartïon ac Unigolion a Enwebwyd ar y platfform mewn modd hygyrch, a chysylltu cyfeiriadau etholiad â’r pleidiau / ymgeiswyr perthnasol.
</td>
</tr>
<tr>
<td>5</td>
<td>Cyhoeddusrwydd i’r platfform<br><br>Geiriad ar gardiau pleidleisio<br><br>Cysylltu â’r platfform</td>
<td>
1. Er mwyn hyrwyddo’r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig, mae’n rhaid i Swyddogion Canlyniadau gyhoeddi’r canlynol:<br><br>
(a) <u>Geiriad ar gardiau pleidleisio</u><br><br>
Mae’n rhaid i’r geiriad canlynol gael ei gynnwys ar y cardiau pleidleisio a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau -<br><br>
I gael gwybodaeth am y pleidiau a'r ymgeiswyr sy'n sefyll yn eich ardal chi, ewch i bwrwpleidlais.cymru<br><br>
For information of parties and candidates standing in your area: go to vote.wales<br><br>
Gellir ei osod ble bynnag sy’n fwyaf priodol i’r dyluniad penodol a gymeradwywyd gan bob Swyddog Canlyniadau. Mae’n rhaid ei gynnwys ar bob math o gardiau pleidleisio.<br><br>
(b) <u>Gwybodaeth ar wefan y Cyngor</u><br><br>
Mae’n rhaid i Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod dolen i’r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn cael ei chyhoeddi ar wefan eu Cyngor ynghyd â gwybodaeth arall maen nhw’n ei chyhoeddi am yr etholiad.
</td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | **Mae'n rhaid i'r ddolen gael ei chyhoeddi ar y wefan ar yr adeg y cyhoeddir yr Hysbysiad o Etholiad neu cyn hynny.**<br><br>**2. Wrth gynnal gweithgareddau ymgysylltu â phleidleiswyr, fel postiadau cyfryngau cymdeithasol, dylai'r Swyddog Canlyniadau hefyd hyrwyddo'r Platfform Gwybodaeth i Etholiadau Cymreig.**<br><br>*Bydd y BRhE yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r platfform, ond dylai Swyddogion Canlyniadau chwarae rôl allweddol yn y gweithgarwch hyrwyddol hwn, yn enwedig pan fydd ganddynt gysylltiad uniongyrchol â phleidleiswyr. Bydd y BRhE yn darparu deunyddiau cyhoeddusrwydd i gynorthwyo'r Swyddogion Canlyniadau â'r gweithgarwch ymgysylltu hwn.* |
| **6** | **Dilysu a Chyfrif**<br><br>*Canlyniadau Cyfrif* | **Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau ddarparu canlyniadau'r cyfrif pleidleisiau i'r BRhE yn ôl etholaeth.**<br><br>**Mae'n rhaid i hyn fod ar y ffurf a ragnodir gan y BRhE yn y canllawiau y bydd yn eu cyhoeddi ynglŷn â'r platfform, ac mae'n rhaid ei ddarparu i'r BRhE ar ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau.**<br><br>**Mewn rhai amgylchiadau, gellid ymestyn y dyddiad cau ar gyfer darparu'r wybodaeth hon hyd at 3 diwrnod calendr o gyhoeddi'r canlyniadau, gyda chytundeb y BRhE.**<br><br>**Mae'r BRhE yn mynnu bod y wybodaeth hon yn cael ei darparu yn ogystal â'r Datganiad o Ganlyniadau a gyhoeddir (gweler cyfarwyddyd 6, isod) er mwyn gallu cyflwyno gwybodaeth am ganlyniadau mewn modd hygyrch ar y platfform.**<br><br>*Bydd angen i'r BRhE gyhoeddi canlyniadau'r cyfrif pleidleisiau ar y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig. Byddem yn disgwyl i'r rhan fwyaf o Swyddogion Canlyniadau ddarparu'r wybodaeth y cyfeirir ati yn y cyfarwyddyd hwn ar y diwrnod cyfrif, er na fydd y canlyniadau mewn amser real. Fe allai'r BRhE gytuno i dderbyn gwybodaeth wedi'i hoedi am ganlyniadau mewn rhai amgylchiadau os yw Swyddog Canlyniadau'n wynebu materion logistaidd cymhleth.* |